



# Croeso gan yr Is-ganghellor

## Llongyfarchiadau!

**Mae graddio yn garreg filltir arwyddocaol ym mywyd pob myfyriwr a heddiw mae'n bleser mawr gennym ddathlu eich llwyddiannau yma ym Mhrifysgol Bangor!**

Mae eich profiad prifysgol wedi mynd â chi ar daith o dwf a thrawsnewid. Bu'n rhaid i chi wynebu'r heriau unigryw a digyffelyb o astudio am radd yn ystod pandemig Covid-19 a hoffwn dalu teyrnged arbennig i chi am eich ymrwymiad a'ch ymroddiad i ddysgu.

Graddio yw'r dyddiad pwysicaf yn y calendr addysg uwch. Fel Is-ganghellor, mae'n bleser mawr gennyf fod yn bresennol yn y seremonïau hyn, yn tystio i'ch llwyddiant a dathlu grym trawsnewidiol addysg brifysgol. Rydym yn falch iawn o allu rhannu dathliadau ein holl raddedigion gyda theuluoedd, ffrindiau a chefnogwyr.

Pa bynnag lwybr a ddewiswch, mae'r brifysgol yn dymuno'n dda i chi ar gyfer y dyfodol, ac yn gwneud hynny gan wybod bod Bangor wedi'ch helpu i ehangu eich meddwl a'ch doniau, gan roi'r wybodaeth, y profiadau a'r rhwydweithiau i chi i'ch cynorthwyo wrth i chi lywio'r camau nesaf yn eich bywyd.

Cofiwch y bydd eich cysylltiad â Phrifysgol Bangor yn para am oes. Rydych yn awr yn rhan o'n cymuned ryngwladol, lwyddiannus o gyn-fyfyrwyr a byddwn yn ymdrechu i barhau i'ch cefnogi, lle bynnag yr ydych yn y byd.

Ar ran staff y brifysgol, dymunaf bob llwyddiant i chi wrth gyflawni eich amcanion.

**Yr Athro Edmund Burke**
**Is-ganghellor**



# Graddau er Anrhydedd 2023

**Mae ein Cymrodoriaethau a'n Graddau er Anrhydedd yn ddyfarniadau mawr eu bri a roddwn i unigolion nodedig sydd â chysylltiad â'r Brifysgol, neu â Chymru, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol yn eu gwahanol feysydd.**

## Cyfraniad at Ddiwylliant, Cerddoriaeth a Chelfyddydau Cymru a'r Gymraeg



### Yr Arglwydd Dafydd Wigley

Gwleidydd o Gymro yw **Dafydd Wigley**, y Barwn Wigley o Gaernarfon. Bu'n gwasanaethu fel arweinydd Plaid Cymru o 1981-84 ac eto ym 1991-2000. Bu'n gwasanaethu fel Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Gaernarfon o 1974 tan 2001 ac fel Aelod Cynulliad dros Gaernarfon o 1999 tan 2003. Yn 2010, rhoddwyd arglwyddiaeth oes i Dafydd gan Ei Mawrhydi, y Frenhines Elizabeth II. Cymerodd ei sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi, fel y Barwn Wigley o Gaernarfon, ar 24 Ionawr 2011. Bu Dafydd yn cadeirio Grŵp Llywio Partneriaeth Llechi Cymru a chwaraeodd ran allweddol wrth sicrhau Statws Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirwedd Mwyngloddio Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn 2021.



### Mr Ieuan Wyn Jones

Mae **Ieuan Wyn Jones** yn gyfreithiwr cymwysedig ac yn gyn Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad Ynys Môn. Penodwyd Ieuan yn Ddirprwy Brif Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru yn 2007-11, cyn rhoi'r gorau iddi i ganolbwyntio ar ei waith yn y Cynulliad Cenedlaethol, ochr yn ochr ag arwain Plaid Cymru o 2000-12. Cyn hynny bu Ieuan yn Gyfarwyddwr Gweithredol Parc Gwyddoniaeth Menai Prifysgol Bangor ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf. yn 2013, swydd a ddaliodd am 10 mlynedd.



### Mrs Leah Owen

Mae **Leah Owen** yn enedigol o Ynys Môn. Bu'n cystadlu mewn Eisteddfodau yn ifanc iawn, a chafodd lwyddiant mewn nifer o Eisteddfodau Cenedlaethol yn y 1970au. Bu'n unawdydd lleisiol gwadd ac yn arweinydd sawl côr, a rhwng 1975-2001 recordiodd sawl albwm unigol i Recordiau Sain.

Ar ôl graddio o Brifysgol Bangor gyda gradd Baglor mewn Cerddoriaeth yn 1974, bu Leah yn dysgu yn Ysgol Hirael, Bangor, Ysgol Uwchradd Dinbych, Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych a Chanolfan Iaith Sir Ddinbych. Cafodd Leah ddylanwad mawr ar genedlaethau newydd o gerddorion ac actorion, a bu'n hyfforddi rhai o sêr mwyaf Cymru heddiw, gan gynnwys Steffan Rhys Hughes, Mared Williams, Jade Davies, Angharad Rowlands ac Amber Davies ac ysbrydolodd gerddorion di-ri' i ddatblygu a mireinio eu crefft. Gwnaeth Leah gyfraniadau sylweddol i addysg cerddoriaeth a diwylliant yng Nghymru, yn enwedig yn Sir Ddinbych.

## Cyfraniad at Wasanaeth Cyhoeddus (gan gynnwys Iechyd)



### Mr Trefor Owen

Mae **Trefor Owen** yn uwch weithiwr proffesiynol mewn coedwigaeth yng Nghymru. Cafodd gymrodoriaeth hynod gan Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig. Ymhlith ei gyflawniadau nodedig cafodd ei benodi'n Brif Weithredwr Dros Dro ar Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban, ac yna'n Gyfarwyddwr Rheoli Tir, lle bu'n gyfrifol am oruchwylio ystâd goedwigaeth gyfan llywodraeth yr Alban a'r rhan fwyaf o'r gweithlu. Mae Trefor yn frwd dros addysg, profiad myfyrwyr, a chyflogadwyedd, ac mae wedi cynnal cysylltiadau agos â'i alma mater, Prifysgol Bangor.

## Cyfraniad at Adloniant Poblogaidd, cyfraniad at Ddysgu trwy'r Cyfryngau



### Ms Joanna Scanlan

Mae **Joanna Scanlan** yn actor ac ysgrifennwr sgrin o fri sy'n adnabyddus yn rhyngwladol. Cafodd ei magu yng Ngogledd Cymru ac mae ei rhieni ill dau'n gyn-fyfyrwyr o Brifysgol Bangor. Mae'n dal i gyfrannu at brofiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor. Yn ogystal ag ennill BAFTA am yr Actores Orau mewn Rhan Flaenllaw yn 2022 a chael ei henwi fel darpar enillydd Oscar at y dyfodol, bu Joanna hefyd yn traddodi sgyrsiau am yrfaoedd i fyfyrwyr, gan rannu ei harsylwadau a'i phrofiadau o'i gyrfa helaeth. Mae ei gwaith mewn cyfresi fel The Thick of It, Getting On, Puppy Love, No Offence ac yn fwyaf diweddar Gentleman Jack, Y Golau and The Larkins yn amlygu ei gyrfa lwyddiannus.



